# Manifesto Pensiynwyr 2024

## Barnett yn gorfod mynd

Ym mis Tachwedd 2023, cyhoeddodd Llywodraeth San Steffan fersiwn 10 o Fformiwla Barnett. Mae gwasanaethau yng Nghymru yn cael eu tanariannu'n sylweddol**.**

**Mae Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru'n galw ar Lywodraeth nesaf San Steffan i ddiwygio fformiwla Barnett a'i gwneud yn un sy'n ystyried yr anghenion economaidd-gymdeithasol cymharol yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a rhanbarthau Lloegr.**

Dylid gwneud penderfyniadau ar sut y caiff ei weithredu mewn ymgynghoriadau agored â'r gweinyddiaethau datganoledig a rhanbarthau Lloegr yn hytrach nag yn unochrog gan Drysorlys y DU. Dylai'r Trysorlys gyhoeddi ei gyfrifiadau cyllid mewn cyhoeddiad unigol, cydlynol a chyson.

## Iechyd a Gofal

**Mae Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru'n cefnogi un system o iechyd a gofal di-dor i Gymru a'r DU - yn rhad ac am ddim pan fo angen.**

## Cynhwysiant Digidol

Adroddodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn ei hadroddiad 'Access Denied': "Mae fy nghanfyddiadau yn tynnu sylw at raniad digidol amlwg sydd nid yn unig yn waharddedig, ond sydd hefyd yn aml yn golygu fod pobl hŷn yn teimlo'n ddiwerth, yn annigonol ac nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi gan gymdeithas."

**Mae hynny'n annerbyniol.**

**Dylai Llywodraeth nesaf San Steffan sicrhau bod pawb sy'n 60 oed neu'n hŷn yn cael mynediad at ryngrwyd band eang am ddim. Dylid darparu offer a chymorth addas er mwyn iddynt fedru cael mynediad at wasanaethau hanfodol ar-lein.**

**I'r bobl hŷn hynny na allant gael mynediad at wasanaethau ar-lein, neu nad ydynt yn dymuno mynd ar-lein, rhaid i'r llywodraeth ymgorffori, yn ôl y gyfraith, fod opsiynau nad ydynt yn ddigidol yn parhau i fod ar gael sy'n hygyrch i'r Sectorau Cyhoeddus a Phreifat.**

## Trwyddedau teledu am ddim i bobl dros 75 oed a dyfodol y BBC

Mae'n ymddangos fel petai'r byd yn mynd hyd yn oed yn fwy peryglus ac mae camwybodaeth yn effeithio ar ethos gwasanaeth cyhoeddus y BBC i hysbysu, difyrru ac addysgu. Mae hyn yn rhywbeth y dylem ei amddiffyn yn ffyrnig a'i ariannu'n gywir.

## Newid yn yr Hinsawdd, Tlodi Tanwydd, Ynni, Tai a'r Amgylchedd

Mae Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru'n galw ar Lywodraeth nesaf San Steffan a Llywodraeth Cymru i gydweithio i sicrhau bod gennym amgylcheddau mwy gwyrdd, llai o lygredd aer, llawer mwy o addasiadau tai, systemau bwyd mwy cynaliadwy ar gyfer dietau iachach a hybu iechyd er mwyn cynnal lles.

**Dylai Llywodraeth nesaf San Steffan a Llywodraeth Cymru ddechrau rhaglen 'ôl-osod' ynni cartref mawr.**

## Trafnidiaeth
## Rhowch drefn ar y bysiau!

**Dylai Llywodraeth nesaf San Steffan gyflwyno cerdyn consesiwn teithio cyffredinol i bawb sy'n 60 oed neu'n hŷn. Bydd angen talu ffi gymedrol amdano, a bydd hyn yn galluogi pobl hŷn i brynu eu holl docynnau trên a bysiau ledled y DU gyda gostyngiad o 30%.**

Confensiwn Pensiynwr Cenedlaethol Cymru

Llawr Gwaelod

Tŷ Mariners

Llys Trident

Heol East Moors

Caerdydd CF24 5TD

www.npcwales.org

## Pensiynau'r Wladwriaeth a Budd-daliadau Cyffredinol digonol

Dylid pennu Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth ar 70% o'r cyflog byw (y tu allan i gyfradd Llundain) ac yn uwch na'r lefel tlodi swyddogol.

**Bob blwyddyn dylai pensiwn y wladwriaeth (sylfaenol ac ail fel Cynllun Pensiwn sy'n Gysylltiedig ag Enillion y Wladwriaeth) gynyddu yn unol â'r enillion gorau, y Mynegai Prisiau Defnyddwyr, y Mynegai Prisiau Manwerthu neu 2.5%. Dylai'r Lwfans Enillion Personol Treth Incwm ar gyfer y rhai sy'n derbyn Pensiwn y Wladwriaeth gynyddu, bob blwyddyn, gyda lefel chwyddiant.**

**Budd-daliadau Pensiynwr Cyffredinol**
Hyd nes y cawn bensiwn gwladol digonol, mae Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru'n cefnogi cynnal buddion cyffredinol pensiynwyr fel teithio ar fysiau am ddim a lwfans tanwydd y gaeaf o £500.

## Toiledau Cyhoeddus

**Dylid gwneud darpariaeth toiledau sy'n eiddo i'r cyhoedd yn gyfrifoldeb statudol ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr a dylid cynnwys cyllid ar eu cyfer yn Grant Cynnal Refeniw Awdurdodau Lleol.**